SUT I GEFNOGI PLANT WRTH IDDYNT DDŶCHWELYD YN ÔL I'R YSGOL



ADYaCh
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Additional Learning Needs and Inclusion

CYSWLLT

UN CYSYNIAD PWYSIG I'W GADW MEWN COF WRTH GEFNOGI EICH PLENTYN I DDYCHWELYD I DREFN YSGOL YN DILYN TREULIO CYFNOD HIR YN Y CARTREF YW 'CYSWLLT'.

"CYSWLLT" - BOD YN GYSYLLTIEDIG NEU YNGHLWM GYDA RHYWUN ARALL.

MAE YMWNEUD YN AGOS GYDAG ERAILL YN HWB I'N LLES EMOSIYNOL, AC YN GYFFREDINOL MAE GENNYM NI FEL POBOL YSFA I FOD HEFO POBOL ERAILL.
MAE'R SYNNWYR O GYSWLLT YN ELFEN BWYSIG MEWN PERTHYNAS GREF A DIOGEL.

CYSWLLT YSGOL

MAE'R SYNIAD O 'GYSWLLT YSGOL' FEL ARFER YN CYFEIRIO AT Y BERTHYNAS RHWNG PERSON IFANC A STAFF YR YSGOL, EU FFRINDIAU A'U CYFOEDION.



SUT I BARHAU'R TEILMAD O 'GYSWLLT' FEL TEULU?



MAE RHAI WEDI CREU 'CAPSIWL AMSER CORONAFIRWS' GYDA LLUNIAU AC ATGOFION O'R CYFNOD YMA YNDDO FEL FFORDD I GOFIO AM YR AMSER YMA. GWELER EIN GWEFAN AM DEMPLED.

NEU BETH AM GREU LLYFRYN LLUNIAU O'R PETHAU RYDYCH WEDI'I WNEUD? RHYWBETH I EDRYCH NÔL ARNO MEWN AMSER I DDOD.

GWELD!

MAE'N BWYSIG I BLANT WELD PETHAU ER MWYN PROFI A DEALL

GALLWCH GERDDED NEU YRRU HEIBIO'R YSGOL ER MWYN I'CH PLANT WELD EI FOD DAL YNO AC YN BAROD I'W CROESAWU'N ÔL ER Y GALL EDRYCH YCHYDIG YN WAHANOL TU MEWN



NEU BETH AM EDRYCH AR FIDEOS MAE STAFF YR YSGOL WEDI EI RANNU AR WEFANNAU CYMDEITHASOL YN TAFLU TOILET RÔL NEU FWCEDI O DDŴR? GALL HYN ATGOFFA'CH PLENTYN FOD STAFF YR YSGOL YN COLLI EU DISGYBLION, AC WEDI EU CADW MEWN COF DROS Y CYFNOD HWN.

TRADDODIADAU NEWYDD

BETH AM DRIO PARHAU GYDA THRADDODIADAU NEWYDD, RHYWBETH RYDYCH CHI FEL TEULU WEDI EI DDATBLYGU YN YSTOD Y CYFNOD ADREF:



MYND AM DRO DYDDIOL

CWIS TEULUOL WYTHNOSOL



NOSON 'FFÊC AWE"

PARHAU WRTH DY OCHR

FEL MAE'R AMSER I DDYCHWELYD I'R YSGOL YN DOD YN NES, MEDDYLIWCH AM Y NEGES YDYCH EISIAU EI GYFLEU I'CH PLENTYN. EFALLAI EICH BOD YN TEIMLO YCHYDIG YN ANSICR A NERFUS AM Y SEFYLLFA EICH HUN? I GYFYNGU YR EMOSIYNAU YMA, GALLWN FFOCYSU AR Y NEGES EICH BOD GYDA'CH PLENTYN HYD YN OED PAN NAD YDYCH GYDA'CH GILYDD YN GORFFOROL, FOD Y 'CYSWLLT' YN PARHAU.

SUT ALLWCH CHI WNEUD HYN?

DEFNYDDIO IAITH SY'N PWYSLEISIO'R AIL-GYSYLLTIAD AC IAITH BOSITIF: "DWI'N EDRYCH YMLAEN AT DY WELD WEDYN A CHLYWED HANES DY DDIWRNOD"

LLEIHAU PŴER TEIMLADAU "MAWR" DRWY EU HARCHWILIO A'U HENWI- "DWI'N SYLW DY FOD DDIM CWEIT YN CHDI DY HUN, **TYBED** WYT TI'N TEIMLO YN...."

STORÂU

DARLLEN STORÂU SY'N CYFLEU'R SYNIAD O GYSWLLT E.E. **'THE INVISIBLE STRING'** GAN PATRICK KARST. STORI AM FAM SY'N EGLURO WRTH EI DAU BLENTYN EIN BOD WASTAD WEDI'N CYSYLLTU GAN LINYNNAU, ANWELEDIG, A BOD Y CYSWLLT HWN YN PARHAU HYD YN OED OS NAD YW'R PERSON O GWMPAS MWYACH. ER MAI STORI WEDI EI ANELU AT BLANT CYNRADD YW HWN, EFALLAI GALLWCH OFYN I FRAWD NEU CHWAER HYN EI DDARLLEN I'R PLANT IAU ER MWYN ATGYFNERTHU'R NEGES IDDYN NHW!



GWRTHRYCH TROSGLWYDDO

RHYWBETH ALL PLENTYN DDAL GAFAEL ARNO O'R CARTREF YN YR YSGOL ER MWYN CRYFHAU'R SYNIAD O GYSWLLT A SICRWYDD. MI FYDD RHAID CYMRYD IECHYD A DIOGELWCH I YSTYRIAETH WRTH BENDERFYNU AR WRTHRYCH TROSGLWYDDO YN Y CYFNOD HWN, DYMA RAI SYNIADAU:

NODYN

NODYN BYR WEDI'I ADAEL YN Y BOCS BWYD - "EDRYCH YMLAEN I DY WELD NES YMLAEN, JOIA DY GINIO!"



"BOTWM CYSUR"

SYMBOL BYCHAN AR EICH LLAW AC AR LAW EICH PLENTYN NEU TATW DROS DRO GYDA'R NEGES Y DYLAI PLENTYN BWYSO'R "BOTWM" OS AM GYSUR GAN Y RHIANT TRA YN YR YSGOL.

BOD YN DDRYCH:

OS YDYCH YN GWYBOD BYDD EICH PLENTYN YN CAEL EI GINIO AM 12:30, EICH BOD YN DWEUD EICH BOD AM GAEL EICH CINIO'R UN AMSER, NEU WISGO CLUSTDLYSAU NEU SANAU YR UN LLIW A'U CRYS YSGOL AYYB.

AROGL

RHOI MYMRYN O'CH PERSAWR/AFTERSHAVE AR GOLER DILLAD EICH PLENTYN FEL EU BOD YN GALLU AROGLI EICH AROGL CYFARWYDD YN YSTOD Y DYDD..

MAE'R RHAIN I GYD YN CYFLEU FOD Y CYSWLLT SYDD RHYNGOCH YN PARHAU ER NAD YDYCH YNG NGHWMNI EICH GILYDD DRWY'R DYDD MWYACH. Y MWYAF SICR MAE PLENTYN YN EI DEIMLO YN EU CYSWLLT GYDA CHI FEL RHIANT Y MWYAF SICR FYDDANT YN TEIMLO YN EU CYSWLLT GYDA'R YSGOL, STAFF A'U CYFOEDION.

POB HWYL I HOLL DEULUOEDD GWYNEDD A MÔN

AM FWY O WYBODAETH AC ADNODDAU I'CH CEFNOGI CHI AC EICH PLANT YN YSTOD Y CYFNOD TROSGLWYDDO YMA, GWELER EIN GWEFAN:

WWW.ADYACH.CYMRU

ADYaCh
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Additional Learning Needs and Inclusion